

Gwybodaeth i Ymgeiswyr

Cynnwys

- Cyflwyniad
- Gwerthoedd a gweledigaeth
- Dull gweithredu tîm cyfan
- Cydraddoldeb a gosod gwerth ar amrywiaeth
- Gwneud cais am swydd gyda Chomisiynydd Plant Cymru
- Y broses gyfweld
- Manteision ac amodau cyflogaeth

Cyflwyniad

Diolch am fynegi diddordeb mewn swydd yn Swyddfa Comisiynydd Plant Cymru. Nod ein proses recriwtio yw denu ymgeiswyr o safon, ac yn fwy na dim, recriwtio'r bobl iawn. Mae'r ddogfen hon yn cynnwys gwybodaeth am Gomisiynydd Plant Cymru, y broses recriwtio a'n telerau ac amodau cyflogaeth, a allai fod o ddefnydd i chi.

Gwerthoedd a gweledigaeth

Yn 2001, penderfynodd Cynulliad Cenedlaethol Cymru fod angen pencampwr plant ar Gymru. Byddai'r person yma'n cael yr enw Comisiynydd Plant Cymru a byddai'n bencampwr cyntaf i blant yn y Deyrnas Unedig. Byddai'n cael ei ddewis gyda chymorth gan blant a phobl ifanc ac yn gwneud yn siŵr bod plant a phobl ifanc yn dysgu am eu hawliau ac yn cael eu cadw'n ddiogel. Byddai'n cael cadw'r 'swydd orau yng Nghymru', fel mae wedi cael ei galw, am saith mlynedd.

Sally Holland yw'r Comisiynydd ar hyn o bryd, a bydd hi'n Gomisiynydd Plant Cymru tan 2022.

Ein Gweledigaeth

Ein huchelgais yw Cymru lle mae pob plentyn a pherson ifanc yn cael cyfle cyfartal i fod y gorau gallan nhw fod.

Mae gwaith y Comisiynydd Plant yn cael ei lywio gan Gofensiwn y Cenedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn (CCUHP), ac mae hi'n ymdrechu i sicrhau ei fod yn cael ei roi ar waith yng Nghymru.

Ein Gwerthoedd

Mae gan ein swyddfa reolau a gwerthoedd. Dyma'r pethau sy'n ein helpu i adeiladu tîm sy'n meddwl yn yr un ffordd am beth dylai Comisiynydd Plant Cymru fod yn ei wneud. Mae'r gwerthoedd yma – wyth ohonyn nhw - yn ein helpu i sicrhau bod pob penderfyniad a wnawn yn cael ei wneud am y rheswm cywir. Dyma ein sylfeini.

Dyma ein cyfres o werthoedd fel sefydliad

- Mae plant a phobl ifanc yn chwarae rhan glir a dilys yn y gwaith o lywio a helpu i gyfeirio ein gwaith.

- Byddwn ni'n sicrhau bod plant a phobl ifanc y deurn ni i gysylltiad â nhw yn cael eu cadw'n ddiogel trwy ein polisiâu a'n harferion.
- Ein nod yw gwrthweithio pob math o gamwahaniaethu a glynu at ddeddfwriaeth gydraddoldeb ym mhob rhan o'n gwaith.
- Rydyn ni'n roi statws cyfartal i'r Gymraeg a'r Saesneg yn ein sefydliad a'n cyfathrebu allanol, ac yn annog defnydd o'r Gymraeg fel iaith bob dydd yn ein swyddfa.
- Byddwn ni'n glynu at Werthoedd Gwasanaeth Cyhoeddus Cymru'n Un, yn gyd-destun ar gyfer gwerthoedd ac egwyddorion ein gwaith.


Ein Hegwyddorion ar gyfer Cyflawni:

A dyma ein hegwyddorion ar gyfer cyflawni ein gwaith:

- Mae angen i ni gyflawni'r gwerth gorau posib â'n harian cyhoeddus.
- Bydd cysylltiad clir rhwng pob gweithgaredd a chynllun strategol y sefydliad.
- Byddwn ni mor dryloyw â phosibl, yn fewnol ac yn allanol, o ran sut rydyn ni wedi gwneud penderfyniadau ynghylch blaenoriaethau a dulliau cyflawni.
- Byddwn ni'n cynnal strwythurau llywodraethu cryf, rhesymegol a chlir, a mecanweithiau sicrhau ansawdd.
- Pryd bynnag y bydd hynny'n bosib, bydd y sefydliad yn mesur effaith ei weithgareddau.
- Byddwn ni'n datblygu ac yn cynnal dull rhesymegol ac effeithlon o reoli systemau ar gyfer storio, adalw, dadansoddi, monitro ac adrodd am ddata.
- Byddwn ni'n gweithio ochr yn ochr â sefydliadau eraill lle bydd hynny o fudd i hybu hawliau plant yng Nghymru, ond byddwn ni'n cadw'r gallu i graffu'n annibynnol ar gyrff cyhoeddus.
- Byddwn ni'n trin pawb sy'n cysylltu â'n swyddfa â pharch a chwarteisi bob amser. Byddwn ni'n cynnal polisi cwynion clir a hygrych.
- Ein nod yw bod yn gyflogwr sy'n gosod gwerth ar gyfraniad gweithwyr ac yn eu galluogi, gan roi cyfle iddyn nhw ddatblygu eu sgiliau.

Yn ein Cynllun tair blynedd cyfredol ar gyfer pob Plentyn a Pherson Ifanc, rydyn ni'n rhannu uchelgais y Comisiynydd ar gyfer plant a phobl ifanc yng Nghymru. Fe gewch hyd i fwy o ddogfennau am ein gwaith a gallwch weld ein cynllun yma: www.complantcymru.org.uk/ingwaith

Dull gweithredu tîm cyfan



Mae Swyddfa Comisiynydd Plant Cymru yn cynnwys tair swyddogaeth gysylltiedig sy'n gweithio gyda'i gilydd mewn dull gweithredu tîm cyfan.

Mae'r sefydliad yn cyflawni rhaglen waith sy'n gwbl ryngddibynol. Bydd y Swyddogion yn cyflawni rolau arbenigol fel rhan o hyn yn ôl y meysydd maent yn arbenigo ynddynt, ond bydd y cyfan yn dibynnu ar rannau eraill y sefydliad i gyflawni'r rhaglen waith graidd.

Mae cysylltiad rhwng ein gwaith polisi, ein gwaith achosion unigol a'n gwaith cyfranogiad, fel y dangosir uchod, i gyflawni ein nodau allweddol, sef diogelu a hybu hawliau plant yng Nghymru, gyda chefnogaeth ein gwasanaethau Ariannol a gweinyddol, ein tîm Cyfathrebu, ein Cynorthwy-ydd Gweithredol a'n Swyddog Adnoddau Dynol. Mae pob un o'r rhain yr un mor hanfodol i gyflawni ein nodau, ac ni fyddai modd cyflawni ein cylch gorchwyl statudol heb bob un o'r meysydd gweithgaredd hyn. Mae'r timau sy'n cyflawni'r swyddogaethau hyn yn helpu ei gilydd. E.e. Mae Swyddogion Ymchwiliadau a Chyngor yn darparu sgiliau a gwybodaeth i'r timau Polisi a Chyfranogiad, ac *fel arall*. Dylai data o'n gwaith cyfranogiad ac ymchwiliadau a chyngor gael ei goladu'n systematig a'i ddadansoddi er mwyn ei ddefnyddio i lywio ein gwaith o wella polisi ac ymarfer.

Mae holl aelodau'r tîm yn gwneud gwaith cyfranogiad, er mai Swyddogion Cyfranogiad sy'n arwain y gwaith hwn ac yn darparu cyngor arbenigol i gydweithwyr. Mae holl aelodau'r tîm yn cefnogi'r nod o wella polisi ac ymarfer trwy eu gweithgareddau, er bod y gwaith hwn yn cael ei gydlynu gan y Swyddogion Polisi. Mae'r gwaith achosion yn cael ei arwain gan Swyddogion Ymchwiliadau a Chyngor, ond yn cael ei lywio a'i gefnogi gan Swyddogion Polisi. Gall Swyddogion Cyfranogiad gynorthwyo hefyd mewn cyfarfodydd gyda grwpiau o blant sydd wedi cysylltu â'r swyddfa ynghylch eu sefyllfa. Mae ein Swyddogion Cyllid, gweinyddol, Adnoddau Dynol a Chyfathrebu yn gweithio i gynnal a chefnogi gwaith y sefydliad, gan sbarduno perfformiad, cyfathrebu a dealltwriaeth y cyhoedd o'n gwaith.

Y Tîm Perfformiad a Chyfathrebu

Mae Pennaeth Perfformiad a Chyfathrebu yn gweithio'n uniongyrchol i Gomisiynydd Plant Cymru, gan arwain y gwaith o ddatblygu a gweithredu strategaeth gyfathrebu allanol sy'n ceisio codi proffil y Comisiynydd, ei rôl a gwaith ei swyddfa, yn ogystal â sefydlu fframwaith cydlynus o lywodraethu a pherfformiad mewnol ar gyfer y sefydliad. Bydd Pennaeth Perfformiad a Chyfathrebu yn datblygu ac yn cydlynu cynlluniau rheoli argyfwng, ynghyd â gweithredu a monitro strategaeth cyfathrebu mewnol y sefydliad, gan arwain y gwaith o olygu a chynhyrchu pob cyhoeddiad corfforaethol, gweithredu fel llefarydd i'r cyfryngau ar gais y Comisiynydd, a rheoli'r pwynt cyswllt â'r cyfryngau y tu allan i oriau gwaith.

Nod cyffredinol ein gwaith cyfathrebu yw sicrhau mai'r Comisiynydd yw y llais awdurdodol ar faterion plant a phobl ifanc yng Nghymru. Mae'r tîm hefyd yn ceisio sicrhau sylw rhagorol i'r sefydliad yn y cyfryngau, ar draws holl agweddau gwaith Comisiynydd Plant Cymru, fel bod negeseuon allweddol yn

cael eu cyfleu i'r holl randdeiliaid perthnasol, a bod cyhoeddiadau ansawdd uchel yn cael eu cynhyrchu a'u dosbarthu i randdeiliaid perthnasol ar ran y Comisiynydd.

Ymhlith yr aelodau eraill o'r tîm yma mae ein Swyddog Cyfathrebu Digidol, sy'n gyfrifol am ddatblygu a gweithredu strategaeth cyfathrebu digidol Comisiynydd Plant Cymru, sy'n cynnwys rheoli cynnwys y wefan a llwyfannau cyfryngau cymdeithasol y Comisiynydd.

Ymhlith cyfrifoldebau eraill y Tîm Perfformiad a Chyfathrebu mae darparu arbenigedd ym meysydd llywodraethu effeithiol a chynaliadwy, cynllunio strategol, gwerthuso perfformiad, a systemau gweinyddiaeth a gwybodeg. Mae'r systemau hyn yn sicrhau ein bod ni, fel corff cyhoeddus, yn cydymffurfio â'r egwyddorion a amlinellwyd gan y "Safon Lywodraethu Dda ar gyfer Gwasanaethau Cyhoeddus", fel bod ein swyddogaethau atebolrwydd a gwneud penderfyniadau yn drylwyr ac yn dryloyw.

Pennaeth Perfformiad a Chyfathrebu sy'n gyfrifol am yr aelodau staff a gyflogir i gynnal a datblygu'r systemau hyn:

Ein Swyddogion Gweinyddol sy'n darparu'r ystod lawn o weithgareddau cefnogi i'w cydweithwyr a gwasanaethau ffôn a chroesawu yn y dderbynfa i blant a phobl ifanc, ymwelwyr â'r swyddfa, gweithwyr proffesiynol eraill a'r cyhoedd yn gyffredinol, gan gynnwys rhoi cyngor ar iechyd a diogelwch yn y gwaith.

Ein Swyddog TG sy'n sicrhau bod gwaith y sefydliad yn cael ei alluogi a'i wella gan adnoddau a systemau technoleg gwybodaeth cadarn.

Y Tîm Ymarfer a Chyfranogiad

Mae'r Tîm Ymarfer a Chyfranogiad yn cynnwys 3 Swyddog Ymchwiliadau a Chyngor amser llawn a 4 Swyddog Cyfranogiad rhan amser (cyfwerth â 3 amser llawn), dan reolaeth linell Pennaeth Ymarfer.

Mae ein Swyddogion Ymchwiliadau a Chyngor yn gweithio yn y Tîm Ymarfer a Chyfranogiad. Maen nhw wedi'u lleoli yn ein Swyddfa yn Abertawe, ond maen nhw'n gyfrifol am ddelio gydag achosion ar draws Cymru gyfan. Maen nhw'n gweithredu fel ffynhonnell o gymorth a chefnogaeth i blant a phobl ifanc (neu'r rhai sy'n gofalu amdanyn nhw ac yn eu cylch) sy'n teimlo eu bod wedi cael eu trin mewn modd rhagfarnol sydd wedi torri eu hawliau, neu sydd â chanfyddiad o hynny. Mae plant a phobl ifanc, rhieni a gofalwyr, neu weithwyr proffesiynol eraill yn cysylltu â'r tîm mewn nifer o wahanol ffyrdd, dros y ffôn, drwy neges

destun, llythyr neu e-bost. Bydd aelod o'r tîm sy'n gweithredu fel swyddog ar ddyletswydd y diwrnod hwnnw yn penderfynu pa gamau mae angen eu cymryd fesul achos.

Byddwn ni'n gwneud ein gorau i gael hyd i ateb cyflym, er mwyn datrys materion ar y lefel isaf sy'n bosib. Gallwn siarad â phobl dros y ffôn neu ofyn am gyfarfodydd i helpu'r plentyn neu'r person ifanc i leisio barn. Gall hyn gynnwys atgyfeirio i sefydliad arall, cyfeirio ymlaen at sefydliad arall, neu gallwn chwarae rhan uniongyrchol mewn achos. Ni fyddwn byth yn rhoi rhif ffôn arall i blentyn neu berson ifanc ei ddefnyddio; byddwn bob amser yn gwneud y cysylltiad cychwynnol ar eu rhan.

Mae'r Swyddogion yn teithio ledled Cymru i gwrdd â phlant a phobl ifanc, i wrando, cefnogi ac eiriol ar eu rhan. Mae gennym ni Swyddogion Cymraeg eu hiaith, ac rydyn ni'n defnyddio cyfieithwyr sy'n golygu bod modd i unrhyw blentyn, person ifanc neu oedolyn sydd â phryderon ynghylch plentyn gyfathrebu â ni yn eu dewis iaith.

Bydd Pennaeth Ymarfer yn ymchwilio i achosion o dorri hawliau plant mewn cyrff cyhoeddus ledled Cymru ac yn cyflwyno argymhellion ar gyfer newidiadau i ymarfer a fydd yn cyflawni newid systemig cadarnhaol i blant a phobl ifanc yng Nghymru. Ef hefyd sy'n gyfrifol am gynnal adolygiadau o gwynion, datgelu camarfer a threfniadau gwasanaethau eiriolaeth oddi mewn i wasanaethau sy'n cael eu rheoleiddio yng Nghymru.

Mae ein Swyddogion Cyfranogiad yn cefnogi'r holl Swyddogion eraill yn eu gwaith i hysbysu plant a phobl ifanc, a'r oedolion sy'n gweithio gyda nhw, ynghylch gwaith Comisiynydd Plant Cymru a Chonfensiwn y CU ar Hawliau'r Plentyn. Mae Swyddogion Cyfranogiad hefyd yn cefnogi'r holl Swyddogion eraill i gasglu barn plant a phobl ifanc, i wrando ar beth sydd gan blant a phobl ifanc i'w ddweud, ac i gynnwys plant a phobl ifanc yn uniongyrchol yng ngwaith y swyddfa.

Mae swyddfa Comisiynydd Plant Cymru yn gweithio gyda llysgenhadon mewn ysgolion ar draws Cymru. Plant sy'n cael eu hethol gan eu cyfoedion yw'r Llysgenhadon Gwych; eu gwaith nhw yw cynyddu ymwybyddiaeth am Gomisiynydd Plant Cymru a hawliau plant yng nghymunedau eu hysgolion eu hunain.

Ar ben hyn, mae'r Swyddogion yn cwrdd ac yn ymgysylltu â grwpiau o blant a phobl ifanc i roi gwybod iddyn nhw am y Comisiynydd a gwranddo ar eu profiadau. Mae beth maen nhw'n ei ddweud wrthyn ni'n llywio ffocws ein gwaith a'n hymatebion polisi, gyda golwg ar sicrhau newid i holl blant Cymru.

Y Tîm Polisi a Materion Cyhoeddus

Mae'r tîm Polisi yn cynnwys Pennaeth Polisi a Materion Cyhoeddus a thri Swyddog Polisi. Mae'r tîm yn ceisio sicrhau bod hawliau plant yn cael eu darparu i bob plentyn yng Nghymru mewn nifer o ffyrdd, gan gynnwys ymateb i ddeddfwriaeth arfaethedig yn Senedd y Deyrnas Unedig a Chynulliad Cenedlaethol Cymru, ac ymateb i ymgynghoriadau ar ganllawiau a rheoliadau newydd neu ddiwygiedig a gynhrychir gan Lywodraeth Cymru.

Mae'r tîm hefyd yn monitro'r argymhellion a wnaed yn flaenorol gan y Comisiynydd, gan gynnwys ymchwiliad Clywch, Gwaharddiadau Answyddogol, Ffiniau Pryder a Bywyd Llawn Gofal. Drwy fonitro'r argymhellion, mae'r tîm yn ceisio sicrhau bod sefydliadau'n ymateb i'r pryderon a nodwyd gan y Comisiynydd, ac yn helpu i sicrhau newidiadau cadarnhaol i blant a phobl ifanc. Mae'r tîm wedi cynnal nifer o werthusiadau gwasanaeth, yn edrych ar weithredu polisi a sut mae polisïau o'r fath yn effeithio ar fywydau a hawliau plant a phobl ifanc. Ymhlith yr enghreifftiau o werthusiadau o'r math yma bu gwaith ar ddarparu cadeiriau olwyn i blant a phobl ifanc, Gwasanaethau Iechyd Meddwl i Blant a Phobl Ifanc, a chwarae i blant anabl.

Mae'r tîm hefyd yn monitro gweithrediad Confensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn (CCUHP) yng Nghymru a rhoi cynllun gweithredu Llywodraeth Cymru ar waith o safbwynt Sylwadau Terfynol 2008. Ochr yn ochr â chydweithwyr ar draws Swyddfeydd Comisiynwyr eraill y Deyrnas Unedig rydyn ni'n monitro gweithrediad cyffredinol CCUHP yn y Deyrnas Unedig, ac yn adrodd ar gynnydd i Bwyllgor y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn.

Y Tîm Cyllid

Mae'r tîm yn cynnwys Pennaeth Cyllid a Swyddog Cyllid.

Mae ein Tîm Cyllid yn gweithio i sicrhau bod yr holl weithgaredd busnes yn cael ei gyflawni gan roi'r sylw manylaf i reoleidd-dra ariannol, a sicrhau bod y Comisiynydd yn cydymffurfio â gofynion cyfrifo statudol ac arfer gorau.

Y Tîm Rheoli

Mae aelodau'r tîm yn cynnwys Comisiynydd Plant Cymru, Pennaeth Cyfathrebu a Pherfformiad, Pennaeth Ymarfer, Pennaeth Polisi a Materion Cyhoeddus, Pennaeth Cyllid a'r Pennaeth Adnoddau Dynol. Cynorthwydd Gweithredol y Comisiynydd sy'n cefnogi cyfarfodydd y tîm.

Mae pob aelod o'r tîm rheoli yn cael eu rheoli gan y Comisiynydd Plant ac yn gweithio i sicrhau fod rheoli perfformiad ac atebolrwydd yn ei le ar draws y sefydliad. Maent hefyd yn gyfrifol am ddatblygu strategaethau a chynlluniau gwaith blynyddol y swyddfa i sicrhau ein bod ni'n llwyddo cyrraedd ein hamcanion a'n gweledigaeth, ac yn trafod materion gweithredol er mwyn sicrhau fod cynlluniau gwaith y swyddfa'n cael eu cwblhau'n llwyddiannus. Mae'r Cynorthwydd Gweithredol yn darparu cefnogaeth gynhwysfawr i'r Comisiynydd er mwyn iddi fedru gweithredu ei rôl a'i swyddogaeth.

Cydraddoldeb a Gosod Gwerth ar Amrywiaeth

Mae Comisiynydd Plant Cymru yn cefnogi, yn gweithredu ac yn hybu egwyddorion a gwerthoedd cydraddoldeb ac amrywiaeth yn ei gwaith. Mae ein hymrwymiad i gydraddoldeb ac amrywiaeth yn golygu ein bod yn croesawu ac yn dathlu gweithio mewn cymdeithas aml-ddiwyllynnol, aml-ffydd, amrywiol, ac rydyn ni'n credu na ddylai neb gael ei drin yn annheg.

Mae bod yn gyflogwr da yn hanfodol i gyflawni ein pwrpas. Mae cyfrifoldeb ar bob gweithiwr i gyflawni ein hymrwymiad i gydraddoldeb ac amrywiaeth. Mae hyn yn hanfodol i'n cyfrifoldebau fel cyflogwr ac ar gyfer ein gwaith gyda phlant a phobl ifanc.

Rydyn ni hefyd yn credu y dylai unrhyw weithiwr sy'n teimlo'n ynysig, wedi'i eithrio, neu sy'n meddwl ei fod wedi cael ei drin yn annheg, gael cefnogaeth a chymorth iawn trwy bolisiâu a gweithdrefnau'r sefydliad ar gyfer urddas yn y gwaith, achwyniad ac ymddygiad anfoddhaol.

Ffurflen Monitro Cydraddoldeb ac Amrywiaeth

Rydyn ni'n mynd ati'n rhagweithiol i ganfod a dileu rhwystrau yn ein cyfleoedd cyflogaeth ac yn ein gwaith gyda phlant a phobl ifanc. Rydyn ni'n gwneud hyn yn rhannol trwy fonitro, asesiadau effaith ar gydraddoldeb, adrodd a chynllunio gweithredu. Fel rhan o'n hymrwymiad cyffredinol i gydraddoldeb er mwyn sicrhau gweithlu amrywiol, ein nod yw creu diwylliant sy'n golygu bod gan yr holl staff hawl i gael eu trin ag urddas a pharch, a diwylliant sy'n sicrhau nad oes neb yn derbyn triniaeth lai ffafriol ar sail hil, tarddiad ethnig, crefydd neu gred, oed, rhywedd, cyfeiriadedd rhywiol, anabled neu statws priodasol.

Mae monitro amrywiaeth yn ein helpu i gyflawni'r nodau hyn trwy ein helpu i ddeall cyfansoddiad ein gweithlu o safbwynt y nodweddion hyn.

Rydyn ni felly'n gofyn i bob ymgeisydd a'n staff, ac yn eu hannog, i lenwi ein ffurflen monitro cydraddoldeb ac amrywiaeth, sydd i'w gweld ar ein gwefan. Bydd yr wybodaeth sy'n cael ei darparu yn ein helpu i wneud y canlynol:

- datblygu a gwella ein harferion;
- adeiladu a chynnal cyfle cyfartal ac amrywiaeth ar draws ein sefydliad; ac
- arddangos ein hymrwymiad i hybu cydraddoldeb a gosod gwerth ar amrywiaeth a'i barchu ym mhopeth a wnawn fel cyflogwr, ac fel pencampwr plant.

Hoffen ni eich sicrhau y bydd y ffurflen hon yn cael ei thrafod ar wahân i'ch ffurflen gais pan gaiff ei derbyn gan y Swyddfa. Ni fydd yn cael ei defnyddio i asesu eich addasrwydd i'ch cyflogi.

Gwneud cais am swydd gyda Chomisiynydd Plant Cymru

Fel rhan o'n Polisi Recriwtio a Dethol a'n Cynllun Cydraddoldeb rydyn ni am sicrhau bod pob ymgeisydd yn cael eu trin yn deg. Yr unig wybodaeth y byddwn ni'n ei defnyddio i benderfynu a yw ymgeisydd yn cyrraedd y rhestr fer neu beidio yw'r wybodaeth y byddwch chi'n ei rhoi ar eich ffurflen gais. Mae eich ffurflen gais yn bwysig iawn, felly, a phwrpas yr adran hon yw eich helpu i'w llenwi. Os ydych chi eisoes yn gweithio i ni, mae angen yr un amrywiaeth o wybodaeth arnon ni yng nghyswllt y swydd rydych chi'n gwneud cais amdani.

Y disgrifiad swydd a'r fanyleb person

Mae pob swydd sy'n cael ei hysbysebu gan Gomisiynydd Plant Cymru yn cael ei chefnogi gan ddisgrifiad swydd a manyleb person. Mae'r disgrifiad swydd yn amlinellu prif ddyletswyddau'r swydd, ac mae'r fanyleb person yn disgrifio'r wybodaeth, y profiad a'r sgiliau sy'n ofynnol ar gyfer y swydd. Os ydych chi'n dal i fod â diddordeb yn y swydd ar ôl darllen y disgrifiad swydd, ystyriwch a oes gennych chi'r sgiliau a'r profiad perthnasol, fel mae'r fanyleb person yn nodi. Os ydych chi, ystyriwch sut gallwch chi ddangos hynny. Yn eich ffurflen gais (gweler yr adran nesaf), gofalwch eich bod yn rhoi digon o fanylion ynghylch sut rydych chi'n bodloni pob un o'r meini prawf.

Llenwi'r Ffurflen Gais

Darllenwch y ffurflen gais yn ofalus cyn ysgrifennu dim, er mwyn gwneud yn siŵr eich bod chi'n deall y cwestiynau. Efallai y cewch ei bod hi'n ddefnyddiol creu fersiwn ddrafft yn gyntaf - bydd hynny'n osgoi camgymeriadau ac yn golygu eich bod chi'n gallu rhoi trefn ar eich cais. Sylwch mai ffurflenni cais yn unig rydyn ni'n eu derbyn, nid CVs. Os nad yw eich cais wedi'i gwblhau, neu os byddwch wedi nodi arno 'gweler y CV', ni fydd yn cael ei ystyried.

Rhaid llenwi'r ffurflen gais mewn inc du neu ei theipio, os gwelwch yn dda, gan y bydd yn cael ei llungopïo. Gallwch ddychwelyd y ffurflen drwy'r post i'r cyfeiriad ar ben y ffurflen gais neu drwy e-bost i: recrwitio@childcomwales.org.uk

Manylion Personol

Rhaid i chi lenwi'r adran hon yn gywir, gan y bydd yr wybodaeth rydych chi'n ei darparu yma yn ein helpu i gydymffurfio â Deddf Lloches a Mewnfudo 1996. Ni allwn gynnig cyflogaeth i rywun sydd heb hawl i fyw a gweithio yn y Deyrnas Unedig. Os byddwn ni'n cynnig y swydd i chi, bydd hynny'n amodol arnoch chi'n profi bod gennych chi'r hawl hon trwy ddogfennau megis rhif yswiriant gwladol, P45 neu basbort. Bydd ein Swyddog Adnoddau Dynol yn gallu rhoi arweiniad pellach.

Cyflogaeth flaenorol

Wrth lenwi'r adran hon o'r ffurflen gais mae'n hanfodol eich bod chi'n cynnwys unrhyw waith gwirfoddol, am dâl neu ran amser a fu gennych. Os na fuoch chi erioed mewn cyflogaeth am dâl, neu os na fuoch chi'n gweithio ers amser hir, dylech chi feddwl yn ofalus am unrhyw brofiad arall perthnasol a gawsoch chi, nid o reidrydd mewn lleoliad gwaith ffurfiol.

Gofalwch hefyd eich bod chi'n cynnwys manylion eich swydd gyfredol neu fwyaf diweddar, hyd yn oed os byddwch chi'n teimlo bod y swydd honno ddim yn berthnasol i'ch cais presennol. Dylech chi esbonio prif nodweddion eich rôl, gan gynnwys y pethau rydych chi'n gyfrifol, neu roeddech chi'n gyfrifol amdanynt, ond peidiwch â rhoi gormod o fanylion. Os gallwch chi, dylech chi gadarnhau manylion cyflog eich swydd bresennol neu fwyaf diweddar.

Byddwch chi'n cael cyfle i ymhelaethu ar y sgiliau a'r profiad sy'n fwyaf perthnasol i'ch cais yn ddiweddarach yn y ffurflen.

Dylech chi hefyd roi manylion eich cyflogaeth yn y gorffennol, gan gychwyn gyda'r swydd fwyaf diweddar ac egluro unrhyw gyfnodau pryd na fuoch chi mewn addysg bellach neu gyflogaeth.

Cymwysterau

Mae'r fanyleb person yn nodi unrhyw gymwysterau sy'n ofynnol ar gyfer y swydd, a dylech restru'r rhain yn yr adran hon. Efallai y byddwch chi hefyd am gynnwys unrhyw gymwysterau eraill sydd gennych, neu gyrsiau hyfforddi yr ydych wedi'u mynychu, yr ydych chi'n teimlo eu bod nhw'n berthnasol i'r swydd. Os byddwn ni'n cynnig y swydd i chi, bydd angen i ni weld tystysgrifau'r cymwysterau rydych chi'n eu rhestru.

Cofnod o gyflawniadau

Mae'r adran hon o'r ffurflen gais yn bwysig iawn. Defnyddiwch hi i ddangos sut mae eich gwybodaeth, eich profiad a'ch sgiliau'n cyfateb i'r meini prawf dethol a restrir yn y fanyleb person. Dylech ddangos sut mae gennych chi'r wybodaeth, y sgiliau a'r profiad a amlinellwyd yn y fanyleb person, trwy roi enghreifftiau penodol o'ch prif gyflawniadau o'ch profiad eich hun.

Os bydd angen, gallwch barhau ar uchafswm o ddwy dudalen A4 ychwanegol. Rhaid rhifo pob tudalen ychwanegol, a rhaid iddyn nhw gynnwys eich enw a theitl y swydd yr ydych yn ymgeisio amdani.

Sgiliau yn y Gymraeg

Mae ein Cynllun Iaith Gymraeg yn amlinellu set o egwyddorion craidd, gyda'r nod o sicrhau triniaeth gyfartal i'r Gymraeg a'r Saesneg yn y gweithle. Yn ôl ein hegwyddorion craidd:

- Byddwn ni'n creu ac yn hybu mynediad i bob gwasanaeth rydyn ni'n ei ddarparu trwy gyfrwng y Gymraeg a'r Saesneg. Bydd y gwasanaethau hyn yn cynnwys cyfathrebu ysgrifenedig, cyfathrebu electronig a rhyngweithio wyneb yn wyneb;
- Byddwn ni'n darparu gwasanaeth o ansawdd yr un mor uchel yn Gymraeg a Saesneg; a
- Byddwn ni'n cynyddu hyder y cyhoedd yn narpariaeth y Gymraeg a'r Saesneg.

Er mwyn cyflawni'r nodau hyn, rydyn ni'n gofyn i bob ymgeisydd nodi lefel eu sgiliau yn y Gymraeg.

Deddf Ailsefydlu Troseddwyr 1974 (Gorchymyn Eithriadau 1975)

Gofalwch eich bod chi'n llenwi'r rhan hon o'r ffurflen. Gan ein bod ni'n gweithio gyda phlant a phobl ifanc, mae pob swydd wedi'i heithrio o Ddeddf Ailsefydlu Troseddwyr 1974, sy'n golygu bod rhaid datgelu pob euogfarn, p'un a ydynt wedi darfod neu beidio. Mae hyn yn cynnwys unrhyw rybuddion, ceryddon, gan gynnwys cael eich rhwymo neu eich rhybuddio, a hefyd droseddau gyrru. Mae hyn hefyd yn cynnwys tramgwydd droseddol yr ydych wedi'ch cyhuddo ohoni, ond na wnaed penderfyniad yn ei chylch eto.

Mae pob swydd gyda Chomisiynydd Plant Cymru yn destun gwiriad datgelu manwl gan y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd (GDG). Bydd y GDG yn gwirio cefndir ymgeiswyr am swyddi i wneud yn siŵr nad oes ganddyn nhw hanes a fyddai'n golygu eu bod yn anaddas ar gyfer rhai swyddi.

Mae'n bwysig iawn ateb cwestiynau ynghylch euogfarnau blaenorol ar y ffurflen gais yn onest ac yn ofalus. Cymerwch amser i ystyried yr wybodaeth, os gwelwch yn dda. Os oes gennych chi gofnod troseddol, ni fydd hynny'n awtomatig yn eich atal rhag cael eich cyflogi. Byddwn ni'n rhoi ystyriaeth i natur eich trosedd a pha mor berthnasol yw hi i'r swydd. Mae copi o'n polisi ynghylch datgelu cefndir troseddol ar gael ar gais.

Os cewch eich cyflogi, a byddwn ni'n darganfod wedi hynny eich bod chi wedi methu â datgelu euogfarn neu rybudd, mae'n debygol y bydd eich cyflogaeth mewn perygl.

Geirdaon

Mae angen derbyn dau eirida y mae panel cyfweld y Comisiynydd Plant yn barnu eu bod yn foddhaol ar gyfer pob penodiad. Byddwn ni'n gofyn caniatâd pob ymgeisydd i gysylltu â'r rhai fydd yn rhoi geirda iddyn nhw cyn y cyfweliad.

Ni fydd Comisiynydd Plant Cymru yn penodi cyn derbyn geirdaon, felly pan fydd ymgeisydd wedi nodi ar ei ffurflen gais nad yw'n rhoi caniatâd i'r Swyddog Adnoddau Dynol gysylltu â'r rhai fydd yn rhoi geirda cyn y cyfweliad, bydd aelod o'r panel cyfweld yn esbonio hynny wrth yr ymgeisydd. Ar yr adeg hon yn y broses gyfweld, bydd y panel yn ceisio caniatâd yr ymgeisydd i gasglu'r geirdaon.

Dylai'r ddau berson sy'n rhoi geirda i chi gynrychioli eich cyflogwr presennol neu fwyaf diweddar, a chyflogwr blaenorol. O fewn y fframwaith yma, dylech roi manylion y person(au) sy'n fwyaf tebygol o allu cadarnhau eich bod chi'n addas ar gyfer y swydd yr ydych chi'n gwneud cais amdani. Mae

Comisiynydd Plant Cymru yn cadw'r hawl i gysylltu ag unrhyw gyflogwyr blaenorol eraill y mae'n barnu sy'n angenrheidiol. Os nad ydych chi wedi gweithio mewn swydd gyflogedig, cewch ddarparu enw a chyfeiriad unrhyw un sy'n eich adnabod yn dda, ac a fydd yn gallu cadarnhau'r wybodaeth rydych chi wedi'i darparu a gwneud sylwadau ynghylch eich addasrwydd i'r swydd.

Dylai ymgeiswyr mewnl nodi eu rheolwr llinell fel un a fydd yn rhoi'r geirda cyntaf.

Cwestiynau penodol

Yn y rhan hon o'r ffurflen gais mae tri chwestiwn penodol sy'n rhoi cyfle i chi ddangos yn fanylach eich addasrwydd ar gyfer y swydd. Dylech ateb y cwestiynau'n gryno, a bod yn ymwybodol bod terfyn geiriau ar gyfer rhai cwestiynau o bosib, gan ddefnyddio enghreifftiau diriaethol i ddarlunio'ch ymatebion, a chadw'r disgrifiad swydd a'r fanyleb person mewn cof. Cewch gyfeirio at brofiad, sgiliau a gwybodaeth a gawsoch yn eich swydd gyfredol, neu trwy waith neu astudiaethau, p'un a gawsoch chi dâl amdanyn nhw neu beidio. Os yw hynny'n briodol, cewch gyfeirio hefyd at brofiad personol sydd wedi cynyddu eich sgiliau neu eich gwybodaeth. Dylai eich atebion fod wedi'u strwythuro'n dda a'u mynegi'n glir, gan eu bod yn rhan o'r asesiad. Mae'n bosib y byddwn ni'n trafod unrhyw beth y cyfeiriwch ato yn fanylach yn y cyfweliad, os bydd eich cais yn cyrraedd y cam hwnnw.

Datganiad

Pan fyddwch wedi cwblhau'r ffurflen gais, darllenwch drwyddi'n ofalus, gan wirio am wallau, ac i wneud yn siŵr eich bod chi heb adael unrhyw beth allan. Yna llofnodwch a dyddiwch y ffurflen i gadarnhau bod yr wybodaeth yn gywir.

Y broses gyfweld

Os byddwch chi'n cyrraedd y rhestr fer cewch wybod trwy lythyr beth yw dyddiad ac amser eich cyfweliad, a byddwch hefyd yn cael gwybod am unrhyw ofynion ychwanegol, cyflwyniadau er enghraifft, bryd hynny.

Mae Comisiynydd Plant Cymru yn ymroddedig i gynnwys plant a phobl ifanc yn ystyrllon mewn prosesau recriwtio a dethol, felly os cewch eich gwahodd i gyfweliad, bydd y broses yn cynnwys pobl ifanc sydd wedi cael eu hyfforddi a'u paratoi'n briodol.

Os oes gennych chi unrhyw ofynion arbennig, oherwydd anabledd er enghraifft, cysylltwch â'r Swyddog Adnoddau Dynol, a fydd yn hapus i'ch helpu.

Manteision a thelerau cyflogaeth

Mae gan Gomisiynydd Plant Cymru set gynhwysfawr o bolisiau, gweithdrefnau a chanllawiau cyflogaeth sy'n ein galluogi i weithredu'n effeithiol ac yn deg gyda'n gweithwyr. Mae ein polisiau fel arfer yn rhagori ar y gofynion marchnad a statudol, yn arbennig o ran gwyliau a hawliau mamolaeth. Mae'r amodau hyn yn berthnasol i'r holl staff sy'n cael eu cyflogi gan Gomisiynydd Plant Cymru.

Oriau gwaith

Yr oriau gwaith amser llawn yw 35 awr yr wythnos. Oriau'r swyddfa fel arfer yw 9.00am - 5.00pm, er bod aelodau'r tîm yn cael eu cefnogi i weithio o hirbell ac yn elwa o batrymau gwaith hyblyg. Rydyn ni'n annog aelodau'r tîm i weithio mewn modd sy'n hybu cynaliadwyedd amgylcheddol, cydbwysedd da rhwng gwaith a bywyd, a ffordd iach o fyw.

Gwyliau Blynyddol

Mae pob swydd amser llawn, ar bob gradd, yn cynnwys hawl i dderbyn 31 diwrnod y flwyddyn o wyliau blynyddol. Ar ben hynny, mae 8 gwyl banc ac 1.5 o ddiwrnodau breiniol ychwanegol yn cael eu dyfarnu bob blwyddyn. Gall gweithwyr rhan amser hawlio gwyliau pro rata a gwyliau banc/breiniol ar sail eu horiau contractiol.

Y Cynllun Pensiwn

Mae Comisiynydd Plant Cymru yn rhan o Brif Gynllun Pensiwn y Gwasanaeth Sifil, y mae manylion yn ei gylch ar gael ar y wefan ganlynol:

www.civilservice.gov.uk

Talebau gofal plant

Mae Comisiynydd Plant Cymru yn cydnabod bod angen gofal plant hyblyg ar weithwyr, cyn ysgol a'r tu allan i'r ysgol, a hynny o fath ac yn y lleoliad mwyaf cyfleus iddynt. Mae Talebau Gofal Plant yn golygu y gall gweithwyr ddewis eu darparwr gofal plant eu hunain ac mae'n lleihau eu costau gofal plant. Mae Talebau Gofal Plant yn helpu i wella bywydau gwaith staff, fel eu bod yn gallu cydbwysu'u gwaith â'u cyfrifoldebau gofal. Mae'r buddiant hwn yn cael ei weithredu fel rhan o gynllun aberthu cyflog.

Aelodaeth o Undeb Llafur

Mae Comisiynydd Plant Cymru wedi llunio cytundeb cydnabod gydag Undeb y Gwasanaethau Cyhoeddus a Masnachol (PCS).

Hawliau Gweithwyr o ran Llesiant a thâl salwch

Rydyn ni'n cynnig Polisi a Gweithdrefn cynhwysfawr o safbwynt Llesiant y Gweithiwr, sy'n cynnwys darparu Gwasanaeth Cymorth i Weithwyr a chynllun tâl salwch galwedigaethol sy'n cynnig hyd at chwe mis o gyflog llawn a chwe mis ar hanner cyflog, yn dibynnu ar hyd y cyfnod o wasanaeth i Gomisiynydd Plant Cymru.